# Cyfyngiadau hysbysebu

## Cardiau Gosodiadau Hysbysebu – materion a dadleuon.

Mae enwogion yn ddelfrydau ymddwyn pwysig ar gyfer pobl ifanc. Pan fydd sêr chwaraeon fel David Beckham, Wayne Rooney neu Gareth Bale yn hysbysebu diod siwgr, mae'n cyflwyno'r neges anghywir.

Dim ond elw y mae hysbysebwyr yn poeni amdano. Mae enwogion sy'n ymddangos mewn hysbysebion yn cynyddu gwerthiant. Cynyddodd gwerthiant creision Walkers' pan ddechreuodd Gary Lineker ymddangos yn yr hysbysebion.

Dylai enwogion addysgu pobl ifanc i fwyta'n fwy iach.

Mae angen gwarchod plant rhag hysbysebion.

Dylid gwahardd hysbysebion diodydd meddal llawn siwgr a bwydydd nad ydyn nhw'n iach.

Ni ddylai hysbysebwyr bwydydd nad ydyn nhw'n iach gael caniatâd i roi hysbysebion ar y teledu pan fydd plant yn debygol o fod yn gwylio.

Mae cwmnïau bwyd cyflym yn aml yn talu sêr chwaraeon ac enwogion i ymddangos mewn hysbysebion am eu bod yn boblogaidd ymysg plant. Mae hyn yn annog plant ifanc i fwyta bwydydd nad ydyn nhw'n iach.

Pan fydd digwyddiadau chwaraeon yn cael eu noddi gan gwmnïau bwyd cyflym a diodydd meddal, mae'n annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon; mae hyn yn beth da.

Mae plant ifanc yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â beth i'w fwyta. Nid yw hysbysebion yn eu perswadio.

Nid yw ychydig o fwyd cyflym yn gwneud niwed.

Cyfrifoldeb y rhieni yw addysgu eu plant i fwyta'n iach.

Bwydydd cyflym a diodydd siwgr sy'n gyfrifol am y cynnydd mewn arferion bwyta nad ydyn nhw'n iach.